ATODIAD 1

# Hunanasesiad 2024-25

(rhan o Adroddiad Blynyddol 2024-25)

CYNGOR GWYNEDD

# Pwrpas y cyflwyniad

- *Rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried ein **prif** gryfderau a'n risgiau cyn i ni gwblhau ein Hunanasesiad.*

# Cefndir

- Crynodeb lefel uchel o berfformiad y Cyngor yn ystod 2024/25, wedi ei gategoreiddio fel cyfres o Gryfderau a Risgiau ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau a welir yng Nghynllun y Cyngor.

- Risgiau yn seiliedig ar:
  - Ein prif risgiau fel nodir yn y gofrestr risg corfforaethol
  - Materion wedi eu hadnabod gan gyrff archwilio allanol
  - Materion eraill yr ydym wedi eu hadnabod a'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor
  - Materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol

- Cryfderau yn seiliedig ar:
  - Uchafbwyntiau yr adroddiad perfformiad blynyddol
  - Adborth sydd wedi ei dderbyn gan gyrff archwilio allanol (e.e. Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn etc.)
  - Materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol

# Cefndir

- Nid yw pob risg/cryfder wedi ei restru yn y cyflwyniad yma – **y prif rai a welir yma.**

- Bydd nifer fawr o'n cryfderau a'n risgiau yn cael eu cynnwys yn rhannau eraill yr adroddiad blynyddol, yn enwedig ble mae nhw'n ymwneud â phrosiectau Cynllun y Cyngor a'n gwaith dydd-i-ddydd. Er mwyn osgoi ail-adrodd, nid ydym (gan amlaf) yn eu rhestru yn yr Hunanasesiad hefyd.

- Mae 'Gwynedd Effeithlon' yn llawer mwy corfforaethol ei natur gan fod nifer o'r cryfderau a'r gwendidau sydd i'w gweld yma yn rai sefydliadol.

# Gwynedd Effeithlon – Cryfderau

*Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon*

- Wedi llwyddo i ddygymod hefo cyfnodau o lymder/diffyg arian hyd yma.
- Trefniadau llywodraethu corfforaethol da.
- Gallu darparu'r gefnogaeth sydd ei angen yn effeithiol i bartneriaethau – Gwynedd yn awdurdod lletya i nifer ohonynt.
- Rydym yn ymwybodol fod angen parhau i adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio.
- Mae'r Cyngor yn casglu barn pobl y sir mewn sawl ffordd wahanol er mwyn gwella gwasanaethau.
- Fel rhan o Gynllun Ffordd Gwynedd, rydym wedi gwella dealltwriaeth ein rheolwyr o'r camau i'w cymryd er mwyn creu gweithlu bodlon ac iach sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

# Gwynedd Effeithlon – Risgiau

*Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon*

- Heriau Cyllideb Refeniw 2024-25
- Gorwariant adrannol / diffyg cyllideb o £6.6m gyda gorwariant sylweddol yn Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant; Plant a Theuluoedd; Priffyrdd, Peirianneg ac YGC; ac Amgylchedd.
- Pwysau gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 25/26.
- Trafferthion recriwtio i swyddi mewn rhai meysydd sy'n gallu peryglu parhad gwasanaeth.

# Gwynedd Ofalgar – Cryfderau

*Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau*

- Adolygiadau Statudol amserol o ansawdd da yn cael eu cynnal i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn parhau i fod yn briodol.
- Gwelliant mewn canlyniadau i bobl sy’n cael gofal cartref o ganlyniad i ddefnydd o dechnoleg a dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth.
- Gwelliant yn yr ymarfer ym maes diogelu oedolion ac asesu galluedd meddyliol.
- Mae enghreifftiau o gydweithio da â sefydliadau iechyd, yr heddlu a'r trydydd sector i gefnogi canlyniadau da i bobl.
- Datblygiadau cynllunio strategol - Llechen Lân wedi ei gyhoeddi ac i-Lechen ar waith.

# Gwynedd Ofalgar – Risgiau

*Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein*

*cymunedau*

- Dim digon o ofal effeithlon ar gyfer gofal cartref, cartrefi preswyl a nyrsio. Gallai hyn hefyd arwain at niwed, mwy o anghenion a chostau ychwanegol.
- Pwysigrwydd cydweithio amlddisgyblaethol i sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf a rheoli costau'n effeithiol. Mae gweithio gyda phartneriaid fel iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, a darparwyr gofal yn hanfodol i gyflawni hyn.
- Methiant i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol fyddai'n golygu na allwn ddarparu'r gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd.

# Gwynedd Ofalgar – Risgiau

***Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau***

- Os nad oes darpariaeth gofal cartref, cartrefi preswyl a nyrsio digonol ac effeithiol, gallai hynny arwain at niwed, mwy o anghenion a chostau ychwanegol. Ymysg y camau rydym yn eu cymryd i ddelio efo hyn, mae prosiect newydd yng Nghynllun y Cyngor – Llechen Lân.
- Er mwyn sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf a rheoli costau'n effeithiol mae angen i'r timau gydweithio yn amlddisgyblaethol gyda phartneriaid fel iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, a darparwyr gofal.
- Os nad yw gwasanaethau Busnes a Chomisiynu Gofal yn effeithiol ac effeithlon, mae risg i ddiogelwch unigolion a staff, yn ogystal â risg nad ydym yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd.
- Cynnydd yn y galw am wasanaethau a chymhlethdod yr anghenion yn gallu arwain at orwariant.

# Gwynedd Yfory – Cryfderau

*Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc*

- Mae deilliannau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd yn gryf yn gyffredinol.
- Cymorth o ran bodloni anghenion dysgwyr/darpariaeth y Gymraeg – gan gynnwys y gyfundrefn Addysg Drochi.
- Mae’r awdurdod yn hyrwyddo a chefnogi lles disgyblion yn gadarn.
- Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i adeiladau ysgolion ledled y sir.

# Gwynedd Yfory – Risgiau

*Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc*

- Demograffi, a'r effaith ar hyfywdra y gyfundrefn ysgolion presennol.
- Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion.
- Rydym am gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.
- Sicrhau fod ein trefniadau diogelu mewn ysgolion i'r safon gorau posib a chyflawni cynnwys ein Cynllun Ymateb i Droseddu.
- Newid sylfaenol yn y gefnogaeth gwella ysgolion yn sgil dod â GwE i ben. Gyda newid mor fawr mae'n anorfod y gall effeithio ar ansawdd y gefnogaeth o ran gwella ysgolion ac i safonau.

# Gwynedd Lewyrchus – Cryfderau

*Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflog teilwng*

- Cynllun Adfywio Lleol wedi'i greu ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn y Sir.
- Datblygwyd 'Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035' ar y cyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Wedi llwyddo i sicrhau cyllid o ffynonellau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac ARFOR i gryfhau economi Gwynedd.
- Cynlluniau strategol Canol Tref mewn lle a'r Grŵp Eiddo Gwag yn cychwyn cael llwyddiant.

# Gwynedd Lewyrchus – Risgiau

*Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflog teilwng*

- Daeth Rhaglen ARFOR i ben fis Mawrth 2025.
- Rhaglen SPF wedi ei hymestyn am flwyddyn yn unig gan greu ansicrwydd ynghylch cyllid a gweinyddiaeth unrhyw raglenni datblygu'r economi i'r dyfodol.
- Cynllun Twf (Uchelgais Gogledd Cymru) – rhai prosiectau yn fregus.

# Gwynedd Glyd – Cryfderau

*Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau*

- Wedi lleihau niferoedd digartrefedd a chostau llety argyfwng
- Ers 2021 mae'r Cynllun Gweithredu Tai wedi arwain at greu cartrefi newydd. Mae hyn wedi cynnwys dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd a datblygu Tai Cymdeithasol newydd.
- Safle Penrhos – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (£7M)
- Grant Tai Cymdeithasol - £8M o arian ychwanegol

# Gwynedd Glyd – Risgiau

*Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau*

- Digartrefedd yn parhau yn her – angen parhau gyda chynlluniau uchelgeisiol.
- Sefydlu'r Siop Un Stop Tai.
- Sicrhau fod Cymdeithasau Tai yn cefnogi/partneriaethu ar bob agwedd yn y maes Tai.
- Peth oedi wedi bod mewn adnewyddu tai ar ôl eu prynu drwy'r Cynllun Prynu i Osod a sefydlu achos busnes ariannol newydd i allu parhau gyda'r prynu, ond mae'r sefyllfa yn gwella.
- Lle i gyflymu'r gwaith adeiladu gyda thai Tŷ Gwynedd ac i bartneriaethu gyda chymdeithasau tai.
- Cefnogaeth i geisiadau adeiladu tai cymdeithasol.

# Gwynedd Werdd – Cryfderau

*Gwarchod harddwch naturiol y Sir ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd*

- Yn gyson wedi llwyddo i gwrdd â thargedau ailgylchu statudol yn y gorffennol.
- Wedi gosod uchelgais o fod yn garbon sero erbyn 2030 ac wedi mabwysiadu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur er mwyn cwrdd â'r uchelgais.
- Strategaeth Llifogydd wedi ei mabwysiadu sy'n amlygu'r peryglon presennol ac i'r dyfodol o lifogydd ac erydu arfordirol yn y Sir a sut y bydd y risgiau yn cael eu rheoli.
- Cannoedd o dai wedi derbyn cymorth grant i wella eu perfformiad defnydd ynni
- Wedi denu grantiau ynni sylweddol er mwyn lleihau allyriadau carbon o adeiladau, prynu cerbydau trydan a gwaith cadwraeth natur.

# Gwynedd Werdd – Risgiau

*Gwarchod harddwch naturiol y Sir ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd*

- Er mwyn cyrraedd y targed ailgylchu cenedlaethol o 70% ac osgoi dirwy ariannol, mae angen newid ymddygiadau trigolion fel eu bod yn ailgylchu mwy ac yn lleihau y gwastraff gweddilliol sydd angen ei gasglu.
- Mae angen moderneiddio safleoedd trin gwastraff ynghyd â gwneud gwelliannau i'n canolfannau ailgylchu.
- Mae risg sylweddol yn bodoli o lifogydd o'r môr allai gael effaith niweidiol ar nifer o gymunedau megis Fairbourne.
- Methu cwrdd â'r uchelgais yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur fod....'Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030'. Mae hyn yn  risg ymarferol a chyllidol i'r Cyngor.

# Gwynedd Gymraeg – Cryfderau

*Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*

- Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Mae'r Cyngor wedi moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant, ac mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir ymhellach.

# Gwynedd Gymraeg – Risgiau

- Cynllunio'r Gweithlu – canfyddiad am safon iaith.
- Pobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn mudo.